**Rhif: 6**

| | |
| --- | --- |
| **Rhif y Cais:** | **C21/0721/17/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **24/08/2021** |
| **Math y Cais:** | **Amrywio Amod** |
| **Cymuned:** | **Llandwrog** |
| **Ward:** | **Talysarn** |
| **Bwriad:** | **Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 10 ar ganiatâd cynllunio C18/1125/17/LL i gynyddu'r nifer o symudiadau loriau HGV o 5 llwyth y diwrnod i 9 llwyth y diwrnod, dydd Llun i ddydd Gwener heb unrhyw symudiadau HGV ar ddydd Sadwrn.** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel Foel Tryfan, Y Fron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7RF** |
| **Crynodeb o’r Argymhelliad:** | **CYMERADWYO GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

**1.1** Cyflwynir y cais hwn dan Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 10 o ganiatâd cynllunio C18/0125/17/LL i ganiatáu cynnydd mewn allbwn o bum i naw llwyth HGV y dydd, a dim symudiadau HGV ar ddydd Sadwrn. Bydd hyn yn arwain at gyfanswm o 45 cerbyd HGV yn cael mynediad i'r safle bob wythnos.

**1.2** Cymeradwywyd cais cynllunio C18/0125/17/MW ar gyfer gwaredu a phrosesu dyddodion gweithio mwynau presennol, gydag amodau, ar 6 Medi 2018. Mae'r cynnig yn cynnwys gwaredu rhannau mewnol y tomennydd llechi sy'n edrych dros yr iard drefnu bresennol a'r ardal saethu yn y fath fodd er mwyn cynnal wynebau allanol y tomennydd. Roedd y bwriad yn cynnwys cynigion i echdynnu ac adfer wedi'u gweithredu mewn pedwar cam, yn cynnwys ardal ar gyfer prosesu a thair ardal bentyrru stoc ar wahân.

**1.3** Noder - Mae dau ganiatâd cynllunio eisoes yn bodoli ar gyfer y safle ac maent yn ymwneud ag echdynnu a phrosesu mwynau o wahanol ardaloedd yn y chwarel. Er mwyn cywirdeb ac i osgoi amheuaeth yn ymwneud â chyfraddau allbwn, mae chwaer gais, C21/0491/17/LL, yn destun penderfyniad i gynyddu allbwn a chyfnerthu allbwn o waith y chwarel cyfan i gyfanswm o 9 llwyth HGV ar ddyddiau gwaith.

**1.4** Mae’r safle wedi’i leoli ar dir comin gyferbyn â Hawl Tramwy Cyhoeddus, ac wedi'i gynnwys mewn Ardal Tirwedd Arbennig yn y CDLl mabwysiedig ac ar gofrestr tirwedd hanesyddol Nantlle CNC. Mae’r safle wedi’i leoli oddeutu 1000m y tu allan i Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Llechi Cymru sydd newydd ei ddynodi, mae 1100m i'r de o bentref Rhosgadfan a 900m i'r gogledd o'r Fron.

**1.5** Roedd y safle’n weithredol dan ddarpariaethau'r caniatâd presennol a roddwyd ym 1951 ar gyfer cynhyrchu llechi toi a chynnyrch carreg hyd nes i oblygiadau ariannol beri iddo gau yn 1973. Cynhwyswyd y safle ar restr statudol o hen weithfeydd mwynau ac fe’i dosbarthwyd yn ‘safle segur’ dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd 1995. Bu i gais ar gyfer penderfynu amodau dan ROMP yn 2007 ail-actifadu'r gwaith mwynau ac mae'r gwaith wedi sefydlu ei hun yn y farchnad cynnyrch mwynau, wrth gynhyrchu agregau llechen a deunydd addurniadol i brosiectau lleol ac ar gyfer marchnadoedd ymhellach i ffwrdd.

**1.6** Nid yw'r cais yn syrthio o fewn y disgrifiad a'r meini prawf datblygu sydd yn Atodlen 1 Rheoliadau Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, gan fod ardal y datblygiad yn syrthio y tu allan i'r trothwy gorfodol o 25ha ac mae wedi cael ei sgrinio yn negyddol dan Baragraff 2, Atodlen 2 Rheoliadau AEA, '*Extractive Industry, Quarries, open-cast mining and peat extraction*’, ac fe ystyrir bod y trothwy cymwys o '*all development* …’ ac nid oes angen cyflwyno Datganiad Amgylcheddol.

## 2. Polisïau Perthnasol:

**2.1** Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ystyriaethau polisi yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

**2.2** Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 - 2026**

Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus

Polisi Strategol PS 22: Mwynau

POLISI AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi

POLISI AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

POLISI AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol

POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

POLISI AMG 5: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol

POLISI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

POLISI PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr

POLISI TRA 4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant

POLISI MWYN 3: Datblygiadau Mwynau

POLISI MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau

POLISI MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Llywodraeth Cymru,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Rhifyn 11 (Rhagfyr 2018),
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn, Llywodraeth Cymru
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18: Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygiad Economaidd, Llywodraeth Cymru

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn
  Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: AGREGAU (Mawrth 2004), Llywodraeth Cymru

## 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 **2259 -** Cynnig i barhau i weithio Chwareli Moeltryfan ac Alexandra, Cesarea – Caniatawyd 11 Rhagfyr 1951.

3.2 **3/17/126** – Defnyddio tir yn Chwarel Crown, Carmel ar gyfer saethu targed ac i adeiladu Maes Saethu wedi'i gymeradwyo gan y National Rifle Association – Caniatawyd gydag amodau ar 9 Ionawr 1978.

3.3 **3/17/R126A –** Adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir er dibenion saethu targed yn Chwarel Moel Tryfan – Caniatawyd gydag amodau ar 14 Mawrth 1984.

3.4 **3/17/126B -** Adeiladu maes saethu llawddrylliau i gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r maes saethu presennol - Gwrthodwyd caniatâd cynllunio gan Gyngor Bwrdeistrefol Arfon ar 13 Medi 1992, ond yn dilyn apêl, fe'i caniatawyd gydag amodau gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar 30 Rhagfyr 1992.

3.5 **Tomen Wastraff Llechi Alexandra Bach -** Derbyniwyd hysbysiad ar 22 Tachwedd 2004 i waredu oddeutu 60,000 tunnell o ddeunydd o'r dyddodion gwaith mwynau. Caniatâd cynllunio tybiedig dan Rhan 23 (b) Gorchymyn Cyffredinol Datblygiadau a Ganiateir 1995.

3.6 **Tomen Lechi Newydd Crown -** Derbyniwyd hysbysiad ar 19 Mai 2004 i dynnu oddeutu 13,000 tunnell o ddeunydd o'r dyddodion gwaith mwynau. Caniatâd cynllunio tybiedig dan Rhan 23 (b) Gorchymyn Cyffredinol Datblygiadau a Ganiateir 1995.

3.7 **C07A/0325/17/MW -** Cofrestrwyd cais i benderfynu ar amodau safle mwynau segur Rhan 1, dan Atodlen 13, Paragraff 9 Deddf yr Amgylchedd 1995, gyda'r awdurdod ar 1 Mai 2007. Fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, penderfynodd Cyngor Gwynedd ar 8 Hydref 2007, bod y caffael a'r gweithio mwynau a'r gweithrediadau cysylltiedig yn Chwarel Moel Tryfan ac Alexandra, fel y'i cymeradwywyd dan ganiatâd cynllunio Rhif 2259, dyddiedig 11 Rhagfyr 1951, am fod yn ddarostyngedig i atodlen o amodau fel y'i diwygiwyd.

3.8 **C09A/0207/17/MW-** Caniatawyd gydag amodau ar 20 Ebrill 2009 – Codi compownd diogel, strwythurau, cynwysyddion, tanciau gwaddodi a gosod peiriannau ar gyfer gwneuthuriad llechi pensaernïol a chynnyrch crefftwaith llechi. Mae'r cyfleusterau'n ofynnol ar gyfer torri blociau llechi a dynnir o'r chwarel er mwyn paratoi a chynhyrchu cynnyrch llechi pensaernïol a chrefftwaith ac mae'n hanfodol sefydlu iard ddiogel a gweithdy er budd hyfywdra'r gwaith mwynau.

3.9 **C13/1296/17/LL -** Caniatawyd gydag amodau ar 19 Mawrth 2014 – Newidiadau i'r fynedfa briffordd bresennol a gwelliannau i'r ffordd gludo ynghyd â chreu ardal dros dro ar gyfer storio mwynau wedi'u prosesu.

3.10 **C14/0471/17/MW -** Cymeradwywyd gydag amodau ar 5 Tachwedd 2014 - Amrywio amod 6 sydd wedi'i atodi i'r penderfyniad ROMP C07A/0325/17/MW i ganiatáu cynnydd yn allbwn y chwarel o 10,000 i 20,000 o dunelli y flwyddyn yn amodol ar uchafswm o bedwar llwyth y dydd.

3.11 **C15/0571/17/MW -** Caniatawyd gydag amodau ar 1 Medi 2015 – Cais rhannol ôl-weithredol i gadw ardal stocio chwarel, ail-godi adeilad i ddarparu gofod gweinyddol a lles, gosod pont bwyso a gwaredu tomen llechi i ail-alinio llwybr cludo'r chwarel.

3.12 **C16/0063/17/MW -** Caniatawyd gydag amodau ar 17 Mawrth 2016 - Amrywio amod 6 sy'n gysylltiedig â phenderfyniad ROMP C14/0471/17/MW i ganiatáu cynnydd yn allbwn y chwarel, yn ddarostyngedig i ddim mwy na phedwar llwyth y dydd.

3.13 **C17/0902/17/MW –** Caniatawyd gydag amodau ar 6 Rhagfyr 2017 – Cais ôl-weithredol i gadw ardal stocio ar gyfer storio cynnyrch mwynau wedi'u prosesu a phriddoedd adfer.

3.14 **C18/0125/17/MW –** Cymeradwywyd gydag amodau ar 6 Medi 2018 ar gyfer gwaredu a phrosesu dyddodion gweithio mwynau presennol ar gyfer cynhyrchu agregau llechi.

3.15 **C18/1126/17/LL -** Caniatawyd ar 18 Chwefror 2019 i amrywio amod 6 o ganiatâd cynllunio C16/0063/17/MW i ganiatáu pum llwyth HGV y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, heb unrhyw symudiadau HGV ar ddydd Sadwrn.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llandwrog: | Dim Ymateb |
| Cyngor Cymuned Llanwnda: | Cefnogi'r cais yn ddarostyngedig i gydymffurfio gyda'r cytundeb bod HGVs yn osgoi cyfnod traffig ysgol, penwythnosau a gwyliau cyhoeddus. |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: | Dim Ymateb |
| Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd: | Dim sylwadau i'w gwneud ar y cais. |
| Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd: | Dim Ymateb |

| | |
|---|---|
| Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus Gwynedd: | Ni effeithir unrhyw HTC |
| Cymdeithas Bori Uwchgwyrfai: | Dim Ymateb |
| Yr Arolygiaeth Mwyngloddiau a Chwareli: | Dim Ymateb |
| Asiant Mwynau'r Goron: | Dim Ymateb |
| Datblygu Economaidd a Chymunedau Gwynedd: | Dim Ymateb |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Nid yw CNC yn ystyried bod y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar faterion a restrir ar eu pynciau ymgynghori ac felly nid oes ganddynt sylw i'w wneud ar y datblygiad arfaethedig. |
| Dŵr Cymru: | Dim sylwadau i'w gwneud |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Gosodwyd hysbysiad mewn lleoliad gerllaw'r safle a derbyniwyd un llythyr o gynrychiolaeth yn nodi pryder o ran llwch a bod HGVs yn mynd i'r safle mor gynnar â 6:30am. |

**Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**5. Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae Adran 73, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi i ymgeisydd wneud cais i ddatblygu tir heb gydymffurfio gyda'r amodau sy'n atodol i ganiatâd cynllunio sy'n bodoli.

5.2 Dan yr adran yma gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol newid neu dynnu amodau ond ni all newid unrhyw ran arall o'r caniatâd. Mae cais a.73 llwyddiannus yn golygu caniatáu caniatâd cynllunio newydd ac felly mae'r caniatâd gwreiddiol yn parhau yn gyfan. Wrth benderfynu ar gais a.73, gall

yr Awdurdodau Cynllunio Lleol osod amodau y tu hwnt i'r rhai a gynigir yn y cais gwreiddiol. Er hynny, dylai'r amodau a osodwyd ond fod yn rhai y gellid fod wedi eu gosod ar y caniatâd gwreiddiol. Yn flaenorol, y farn oedd na ddylai'r newidiadau a ganiateir olygu 'newid sylfaenol' o'r bwriad a gynigiwyd yn y cais gwreiddiol.

5.3 Mae’r cais hwn yn ymwneud â chynyddu allbwn o 5 i 9 llwyth ar ddyddiau gwaith. Dylid nodi y bydd gweithrediadau yn arwain at symud yr un faint o ddeunydd gyda chaniatâd o waith y chwarel er y bydd hynny'n digwydd ar raddfa gyflymach. Gyda'r holl amodau cynllunio eraill yn cael eu hail-osod, megis amodau yn ymwneud ag effaith ar y dirwedd, archaeoleg ddiwydiannol, treftadaeth, diogelwch amgylcheddol, hydroleg, oriau gwaith, cyfnodedd, bioamrywiaeth, hawliau tramwy cyhoeddus a safleoedd dynodedig, ystyrir mai'r prif ystyriaethau cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â'r cais hwn yw dwyster y broses gynhyrchu a, thrwy hynny, yr effaith ychwanegol ar y brifford.

**Materion Tirwedd a Chadwraeth**

5.4 Yn ogystal â pherthnasedd y cais cynllunio hwn, dylid ychwanegu bod Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru sydd newydd ei ddynodi oddeutu 1km o ffin y gwaith llechi hwn. Er nad oedd yn ddynodiad pan gafodd cais cynllunio C18/0125/17/MW ei benderfynu, ni ystyrir y bydd cynnydd mewn symudiadau cerbydol, sef yr hyn y gwneir cais amdano, yn cael effaith fawr ar ei osodiad yn fwy na'r caniatâd sydd eisoes yn bodoli.

**Materion Trafnidiaeth**

5.5 Ni dderbyniwyd sylwadau anffafriol gan ymgyngoreion statudol, gyda'r Adran Briffyrdd yn nodi y byddai'r cynnydd arfaethedig mewn symudiadau cerbydol yn finimal. Roedd sylwadau pellach yn ymwneud â'r trefniant gwirfoddol parhaus o lwybro cylchol lle mae HGVs yn cyrraedd y safle o Groeslon ac yn cael mynediad drwy Rostryfan sydd, mewn gwirionedd, yn haneru symudiadau traffig i'r chwarel ac oddi yno cyn ail-ymuno â'r A487. Er na ellir amodi'r trefniant hwn, mae'r ymgeisydd a'r Awdurdod Cynllunio Mwynau yn awyddus iddo barhau. Cytunir a datblygir trefniadau o'r fath fel rhan o'r Grŵp Cyswllt Cynllunio parhaus sy'n cyfarfod bob blwyddyn i drafod Gweithrediadau'r safle.

5.6 Roedd cefnogaeth i'r cais gan Gyngor Cymuned Llandwrog yn ddarostyngedig i symudiadau HGV yn osgoi traffig ysgol yn y bore a'r prynhawn. Eto, mae hwn yn drefniant gwirfoddol a gaiff ei gytuno a'i ddatblygu drwy'r Grŵp Cyswllt Cynllunio ar gyfer y safle.

5.7 O ystyried na fydd ond newid bychan i'r cyfyngiadau allbwn presennol, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor a'i fod yn cydymffurfio â Pholisi TRA 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

**Mwynderau Preswyl**

5.8 Mae dau eiddo preswyl, neu ddatblygiad sensitif, o fewn 200m o safle'r cais, sef Tan y Foel Fawr, oddeutu 103m ac sydd wedi'i leoli ar droed y ffordd gludo inclein, a'r llall yw Tan y Foel Fach, oddeutu 150m i'r gogledd. Noda NCTM1 bod ymchwil wedi dangos fod pobl sy'n byw ger gweithfeydd mwynau yn ystyried mai llwch yw prif effaith echdynnu mwynau ac unrhyw weithrediadau prosesu, ac yna traffig, sŵn a ffrwydradau.

5.9 Mae Polisi Cynllunio Cymru a NCTM1: Agregau, yn nodi'r egwyddor o gylchfeydd rhagod o amgylch safleoedd echdynnu mwynau. Mae Polisi MWYN 5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn mabwysiadu'r amcanion o warchod defnyddiau tir sy'n fwyaf sensitif i effaith gwaith mwynau drwy sefydlu pellteroedd gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro. Mae NCTM1 yn

argymell pellter o 100 metr fan leiaf ar gyfer gweithfeydd tywod a graean ac eraill lle na chaniateir ffrwydro, er bod y CDLl ar y Cyd yn manylu ar gylch rhagod o 200m ar gyfer pob gwaith llechi gan gynnwys dyddodion gwaith mwynau oni bai bod rhesymau clir a chyfiawn dros leihau'r pellter pan fo effaith gyfyngedig o'r safle echdynnu.

5.10 O ran y cais hwn, yr unig effeithiau mwynderol i'w hystyried yw'r cynnydd mewn allbwn o bum llwyth i naw llwyth y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, heb ddim symudiadau HGV ar ddydd Sadwrn. Mae'r amodau cynllunio sydd wedi'u gosod ar ganiatâd C18/0125/17/MW yn barod yn bodloni safonau cyfoes ac yn rhoi digon o reolaeth o ran effeithiau niwsans posib sŵn a llwch ar fwynderau'r ardal ac nid oes gan Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais.

5.11 Oherwydd hyblygrwydd amod cynllunio presennol sy'n ymwneud â llwythi dyddiol, mae'r ACM wedi caniatáu trefniant anffurfiol i gynyddu allbwn i 9 llwyth y dydd ar gyfer y 12 mis diwethaf i ddigolledu am fesurau cyfnod clo Covid a gyfyngodd allbwn yn 2020. Er na wnaed unrhyw gŵyn i'r ACM ynghylch gweithrediadau yn y chwarel. Derbyniwyd sylwadau fel rhan o'r broses cais cynllunio hon gan breswylydd cyfagos yn nodi bod llwch wedi dod yn fwy o broblem yn ystod tywydd sych a chafwyd achosion o gerbydau yn cyrraedd y safle mor gynnar â 6:30am. Ar ôl codi'r mater hwn gyda gweithredwr y chwarel, maent wedi cynyddu mesurau atal llwch ac wedi cael ar ddeall y bydd gwaith monitro amlach yn cael ei wneud gan Wasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru gyda mesurau cydymffurfio safle. Mewn perthynas â phroblemau cerbydau yn mynd i'r safle am 6:30am, mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys ac nid oes unrhyw gerbyd HGV yn mynd i'r safle tan 7:30am. Bydd y materion hyn yn cael eu trafod gyda'r gweithredwr a'r gymuned yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt Cynllunio.

5.12 Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle ac nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy'n ddigonol i gyfiawnhau gwrthod y cais cynllunio ac mae materion yn ymwneud â sŵn, llwch a rheolaethau amgylcheddol wedi sefydlu'n dda ar y safle hwn ac nid oes llawer o enghreifftiau o gwynion wedi'u hanfon ymlaen at sylw'r ACM. Ystyrir felly, na fydd y cynnydd mewn traffig cerbydol yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisïau MWYN 3 a PCYFF 2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

**Materion cynaladwyedd**

5.13 Rhydd ffigwr 4.2 Polisi Cynllunio Cymru ddiffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru lle; "golyga datblygu cynaliadwy y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant". Ymhellach, mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwy'r cais hwn yn unol â'r nod datblygu cynaliadwy ym mharagraff 4.1.1. PCC i; "alluogi pawb ym mhob cwr o'r byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwynhau gwell ansawdd bywyd heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol", ac yn unol â saith nod lles 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i helpu sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.

5.14 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod adnoddau mwynau'n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallent gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal yn unol ag egwyddorion allweddol polisi cynllunio mwynau Llywodraeth Cymru. Mae gan Wynedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Bydd y datblygiad yn sicrhau cyflenwad parhaus o gynnyrch llechi yn Chwareli Moel Tryfan ac Alexandra a bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau dosrannu ar gyfer cyflawni mwynau eilaidd ar gyfer is-ranbarth Gogledd Cymru.

**Yr Economi**

5.15 Yng Ngwynedd, mae chwareli llechi wedi bod yn ffordd o fyw ers canrifoedd ac mae etifeddiaeth ei weithgarwch wedi dod yn gymaint o ran o ddiwylliant â thirwedd yr ardal â'r iaith Gymraeg a'r golygfeydd. Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach; Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

5.16 Bydd y datblygiad arfaethedig yn sicrhau cyflogaeth barhaus i'r gweithwyr sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau'r chwarel. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn yr ardal. Mae'r cynnig sy'n ymwneud â'r cais yn hollol hanfodol i gyfraniad economaidd y cwmni yn y dyfodol. Mae'r cwmni'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i'r economi lleol, yn cyflogi hyd at 11 o weithwyr sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau mwyngloddio neu gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cwmni gweithredol.

5.17 Felly, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**6. Ystyriaethau Eraill:**

6.1 Mae'r Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i'w ddyletswydd dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ac wedi ystyried na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad a argymhellir.

6.2 Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys Erthygl 8 y Confensiwn, ac mewn modd sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd nodau cyfreithlon y Ddeddf a'r Confensiwn.

6.3 Mae'r Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i'w ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

6.4 Mae'r Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i'w ddyletswydd dan Adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r penderfyniad a argymhellir.

**7. Casgliad**

7.1.1 Mae'r bwriad hwn yn ceisio amrywio amod 10 o ganiatâd cynllunio **C18/0125/17/MW** i ganiatáu cynnydd mewn allbwn o bum i naw llwyth HGV ar bob diwrnod gwaith. Mae chwaer gais, C21/0491/17/LL, yn bwriadu cynyddu allbwn i'r un graddau gan gyfnerthu'r llwythi i gyfanswm allbwn o naw llwyth HGV y dydd yn ystod yr wythnos o'r safle. Ystyrir bod yr adroddiad hwn yn dangos fod yr holl ystyriaethau cynllunio materol wedi cael eu hasesu a bod y bwriad yn gyson gyda Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a fabwysiadwyd ynghyd â Pholisïau a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol. Cyflwynwyd y cais yma dan a.73 sy'n caniatáu i amod 10 o'r caniatâd gael ei amrywio, gan hefyd ganiatáu rheolaeth ddigonol ac ail-osod yr holl amodau

eraill sy'n ymwneud â'r effaith ar y dirwedd, archaeoleg ddiwydiannol, treftadaeth, diogelwch amgylcheddol a mwynderol, oriau gwaith, cyfnodedd, adfer, bioamrywiaeth, hawliau tramwy cyhoeddus a safleoedd dynodedig.

**8. Argymhelliad:**

**Cymeradwyo yn amodol ar yr addasiad a ganlyn i amod 10 o gais cynllunio C18/0125/17/MW:**

***10.*** *Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau ymlaen llaw, ni fydd yr allbwn, yn unigol neu ar y cyd ag unrhyw ganiatâd cynllunio mwynau presennol arall yn y safle, yn fwy na'r gyfradd uchaf o ddim mwy na* ***naw*** *llwyth HGV y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a dim symudiadau HGV ar ddydd Sadwrn. Rhaid gofalu y bydd ffigyrau allbwn o'r safle dros unrhyw gyfnod penodedig ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol, ar gais, o fewn 21 diwrnod.*

**Y datblygiad i fod yn destun yr un atodlen o amodau dan y caniatâd cynllunio blaenorol a roddwyd C18/0125/17/MW i reoli sŵn, llwch, dirgryniad, hydroleg, gwarchod yr amgylchedd dŵr, trefn y gweithrediadau, cydymffurfio â chynlluniau'r cais, archeoleg, lliniaru ecolegol, adolygu gweithrediadau ac adfer dilyniadol.**